



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Cyfreithlondeb

Trosolwg – Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Aseswyd Heddlu Gogledd Cymru fel llu sydd angen gwella o ran cyfreithlondeb y modd mae'n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu ag ef. Nid yw ein canfyddiadau eleni yn gyson â chanfyddiadau llynedd, lle gwnaethom ddyfarnu bod y llu'n dda o ran cyfreithlondeb. Mae'r llu'n gweithio'n galed i sicrhau bod ymddygiad ei swyddogion yn cael ei alinio â 'r Cod Moseg, mae'n dda o ran trin y bobl mae'n eu gwasanaethu â thegwch a pharch ac yn ceisio adborth a her gan ei gymunedau lleol. Mae ganddo gapasiti cyfyng i geisio ac ymdrin â llygredigaeth bosibl, fodd bynnag, ac er ei fod yn nodi gwerth lles, fe wnaethom ganfod pryderon ymhlith y gweithlu.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n deall pwysigrwydd trin pobl â thegwch a pharch ac mae'r gweithlu'n deall y berthynas rhwng gweledigaeth a gwerthoedd y llu a'r Cod Moseg. Mae'r llu'n ceisio adborth a her gan y bobl mae'n eu gwasanaethu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill, ac mae wedi cymryd rhai camau gweithredu i gyfathrebu â'r rhai hynny sydd â llai o ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu. Mae Heddlu Gogledd Cymru'n gwirio ymgeiswyr yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac mae ganddo raglen gynhwysfawr o weithredu er mwyn amlygu'r hyn yr ystyrir ei fod yn ymddygiad derbyniol ac annerbyniol.

Mae gan y llu rywfaint o ddealltwriaeth o risgiau strategol i uniondeb y sefydliad ond mae ganddo gapasiti cyfyng i geisio a datblygu cudd-wybodaeth a chynnal ymholiadau rhagweithiol i ymdrin â llygredigaeth bosibl. Mae'n cymryd camau gweithredu i atal camddefnydd o awdurdod er mantais rywiol ac yn hysbysu'r cyhoedd a'i weithlu o ganlyniadau camymddwyn. Mae'r llu'n defnyddio nifer o ddulliau i geisio barnau ei weithlu, ac mae'n ymwybodol o bwysigrwydd a gwerth lles. Fodd bynnag, nid yw'r holl staff yn teimlo'n barod i nodi arwyddion afiechyd ac mae gwasanaeth cwnsela'r llu wedi'i dynnu'n ôl. Ni chanfyddir eto bod asesiad blynyddol y llu o berfformiad yn deg ac effeithiol.